


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ebrill 12 2022

Presennol :- Cynghorwyr :- Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Richard Williams, Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards, Ian Jones, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Bethan Rees Jones, Alwyn Gruffydd, Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr :- Jason Humphreys, Malcolm Humphreys

328.4.22 Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr :- Nia Jeffreys, Aled Griffith

329.4.22 Adroddiad y Cadeirydd.

Dechreuodd y Cadeirydd drwy groesawu'r newid yn y tywydd a'r dydd yn ymestyn. Roedd hyn yn creu cyfleon i godi ysbryd trwy ysgogi gweithgareddau awyr agored megis chwaraeon i blant. Roedd yn canmol y diwrnod gweithgareddau diweddar yng Nghlwb Chwaraeon Madog lle gwelwyd 50 o blant yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Roedd yn canmol clybiau chwaraeon yr ardal am roi cyfleon i blant a phobl ifanc – y Clwb Peldroed yn annog peldroed i ferched; tîm peldroed Porthmadog ar frig y gynghrair; tîm Rygbi wedi curo yn eu gêm diweddar ar y Traeth. Roedd am ddiolch i'r clybiau am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'w chwaraeon. Nododd y Cyng Selwyn Griffiths y dylid llongyfarch merch leol, Medi Harris, sydd wedi llwyddo i gyrraedd safon pencampwr Prydain Fawr ym myd nofio.

Nododd y Cadeirydd fod tref Porthmadog yn dechrau llenwi gydag ymwelwyr a'r prysurdeb yn cynyddu ond mater o ofid iddo oedd bod cymaint o achosion o Cofid yn lleol.

Hwn ydi'r cyfarfod olaf yng nghylch gorchwyl 5 mlynedd y Cyngor Tref. Roedd yn diolch ar ran y Cyngor i bob un o'r Cynghorwyr am eu gwasanaeth dros y 5 mlynedd diwethaf.

Dywedodd nad oedd y gwaith yn hawdd ond fod rôl Cyngorydd yn un pwysig. Roedd yn mynegi ei siom fod cyn lleied o Gynghorwyr wedi penderfynu dod yn ôl i barhau yn eu swyddi. Bydd angen rhoi sylw i hyn drwy hysbysebu ac annog aelodau newydd ym mis Mai. Roedd yn diolch i'r rhai oedd yn gadael ar ôl blynyddoedd maith fel Cynghorwyr. Diolchodd i'r Cynghorwyr Richard Williams, Ian Jones, Dr Melfyn Edwards am eu gwasanaeth a'u cyfraniad gwerthfawr i'r Cyngor Tref dros y blynyddoedd. Roedd yn diolch yn arbennig i'r Cyng. Bethan Rees Jones oedd wedi bod yn Gynghorydd Tref ers 45 mlynedd ac wedi bod yn Gadeirydd 4 neu 5 o weithiau.

Ychwanegodd y Cyng. Selwyn Griffiths ei ddiolchiadau personol i'r Cyng Bethan Rees Jones am ei gwaith dros y blynyddoedd er lles y dref – yn enwedig o safbwynt chwaraeon.

Dywedodd ei bod yn barod iawn ei barn a pharod iawn ei chyngor bob amser. Roedd yn dymuno pob bendith a iechyd iddi i'r dyfodol.

Ymatebodd y Cyng Bethan Rees Jones drwy ddweud iddi fwynhau'r fraint o gael bod yn Gynghorydd ac roedd yn diolch am y gwerthfawrogiad.

330.4.22 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mawrth 8 2021

Penderfynwyd :- Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

331.4.22 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Dr Melfyn Edwards - Gohebiaeth 348.4.22 – Hwb Iechyd Eifionydd

Materion i'w dwyn gerbron :-

332.4.22 Llenwi Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol 2022-2023 (Taflen ynghlwm)

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a chadw i'r un taliadau â'r rhai benderfynwyd arnynt ar 12.10.21 yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Carol Hayes yn eilio.

333.4.22 Cyng Jason Humphreys :- Cynnig trefnu fod Cyngor Tref Porthmadog yn cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y Parc.

Penderfynwyd :- Mae'r mater yma ar y bwrdd am y trydydd mis yn olynol oherwydd absenoldeb Cyng Jason Humphreys felly mae'r mater yn disgyn.

334.4.22 Cyng Richard Williams :- Cynnig i'r Clerc lungopïo copi o'r rhestr Diffibrilwyr er mwyn i'r Cynghorwyr ei ddsbarthu yn lleol.

Cytunwyd ar yr egwyddor o rannu'r wybodaeth. Cynigwyd gwelliant gan Cyng Carol Hayes i hysbysebu yn y papurau lleol ac i arddangos y rhestr yn Tesco, Aldi a Lidl ac eilwyd gan Cyng Bethan Rees Jones. Cafwyd pleidlais gyfartal 4 / 4 a chariwyd y mater gan bleidlais y Cadeirydd o blaid y gwelliant.

Penderfynwyd :- y Clerc i weithredu ar y gwelliant.

335.4.22 Cyng Selwyn Griffiths :- Cynnig gweithredu i wella cyflwr mainc goffa Glenda Burke (gweler Gohebiaeth 17)

Cytunwyd fod cyflwr y fainc wedi dirywio'n arw mewn ychydig iawn o amser a chwestiynwyd beth oedd y rhesymau dros hyn ; y tywydd? ei lleoliad? y dewis o bren? safon a gorffeniad y fainc? Mae ei chyflwr wedi gwella rhywfaint wedi i'r Cyng Richard Williams ei glanhau yn ddiweddar.

Penderfynwyd :- y Clerc i hysbysu cwmni Coed y Ddraig o'r dirywiad yn y fainc ac i holi os gallant gynnig gweithredu i wella ei chyflwr neu i roi cyngor ar sut i'w glanhau a'i chynnal yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Ian Jones yn eilio.

336.4.22 Cyng Llywelyn Rhys :- adroddiad ar gyfarfod gyda staff Premier Inn 31.3.22

Cafwyd cyfarfod rhwng y Cynghorwyr Llywelyn Rhys, Selwyn Griffiths a Nia Jeffreys â Rheolwr, Is-Reolwr, swyddog ricriwtio Premier Inn Porthmadog a chynrychiolydd cwmni Whitbread ar 31.3.22. Roedd y cyfarfod wedi bod yn un positif iawn oherwydd fod staff Premier Inn yn :-

- pwysleisio eu bod yn creu swyddi parhaol i bobl leol
- edmygu prydfferthwch yr ardal
- hyderus y bydd y gwesty'n brysur drwy'r amser
- hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar eu harwyddion; hysbysebion; bwydlenni
- annog gwystai Premier Inn eraill Cymru i ddilyn eu hesiampl yn eu defnydd o'r Gymraeg.

Ychwanegodd y Cyng Selwyn Griffiths fod pob arwydd tu mewn i'r gwesty yn ddwy-ieithog

ac y byddai gwestai Premier Inn eraill Cymru yn elwa o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwestai. Roedd wedi pwysleisio pwysigrwydd treftadol y Cob iddynt ac wedi sôn wrthynt am y gwahanol weithgareddau megis Râs y Cob, Penwythnos Fictorianaid sydd wedi cymryd lle fel y gallant hwythau gyfrannu atynt. Roedd wedi ei hannog i gyfrannu at weithgareddau'r dref drwy ymuno â Caru Port er enghraifft. Dywedodd fod un ohonynt, Simone Casey, am geisio canfod lle yn y gwesty i leoli llechen Tŷ Moelwyn. Dywedodd fod y gwesty yn bwriadu agor ar Fehefin 12fed; fod 80 ystafell yn y gwesty; fod ystafelloedd y llawr uchaf yn rhai drytach oherwydd y golygfeydd; fod rhaid talu i ddefnyddio'r maes parcio; bydd y bwyty ar agor i'r cyhoedd. Roedd Cyng Dr Melfyn Edwards yn gobeithio y bydd lluniau a gwybodaeth am dreftadaeth yr adeilad a'r ardal yn cael eu harddangos yn y gwesty.

337.4.22 Cymeradwyo argymhellion y Gweithgor Datblygu :-Cyng Selwyn Griffiths :- Cynnig gweithredu i dderbyn amcanbris Ffion Gwyn am y Byrddau Gwybodaeth Adar ac i drefnu cyfarfod â hi ar y safle.

Penderfynwyd :- Derbyn yr amcanbris a bwrw 'mlaen gyda'r prosiect yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

338.4.22 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Mai 10 2022 = Mai 1 2022 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*
Dim wedi dod i lawn hyd yma.

339.4.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ail-yrro gohebiaeth Mis Rhagfyr parthed Cors Borth y Gest a pherchnogaeth y Cob a'r Cob Crwn yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Carol Hayes yn eilio.

Gohebiaeth :

340.4.22 NALC, Graddfa Cyflog Clercod ers 1.4. 2021

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'i basio ymlaen i sylw'r Is-Bwyllgor Cyllid ar 26.4.22.

341.4.22 TONY BENTON - GIG, Ymateb i 262.2.22 Deintyddion Porthmadog

Penderfynwyd :- mynd â'r mater ymhellach drwy ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan, ac i anfon copi o'r ohebiaeth ati yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

342.4.22 Cyng Richard Williams, Erthygl Nation.Cymru

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Rhys ab Owen i'w wahodd i annerch y Cyngor Tref er mwyn trafod y ffordd ymlaen yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

343.4.22 UN LLAIS CYMRU, Fy nghoeden, ein coedwig

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

344.4.22UN LLAIS CYMRU, Newyddion am Raglen y Goedwig Genedlaethol

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

345.4.22 RHIAN HUGHES – HELO PORT, Ymateb i 195.12.21 Cais i osod yr arwyddion yn uwch
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

346.4.22 UN LLAIS CYMRU, Memo esboniadol ar gyfer rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol 2021
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

347.4.22 DEWI WYN OWEN C.G., Ymateb i 302.3.22 ‘Fy Nghoeden, Ein Coedwig’
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth . Mae'r Clerc eisoes wedi ebostio Dewi Wyn Owen i ddiolch am wella cyflwr llwybr y Cyt.

348.4.22 SIONED PRYS THOMAS, Gwybodaeth am Hwb Iechyd Eifionydd
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

349.4.22 HYWYN WILLIAMS C.G., Ymateb i 302.3.22 ‘Fy Nghoeden, Ein Coedwig’
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

350.4.22 CERYS JONES, Llyfrgell Benthyc Cymru
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

351.4.22 CARWYN HUMPHREYS – MANTELL GWYNEDD, Llwybr yr arfordir
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'r Cynghorwyr i rannu gwybodaeth yn eu Wardiau.

352.4.22 DYFYNBRISIAU TORRI LLWYBRAU 2022, Gwalch Cyf, Cyngor Gwynedd, Garry Sheridan
Penderfynwyd :- Derbyn tendr Cyngor Gwynedd ar yr amod eu bod yn torri llwybr Canolfan Glaslyn i Ffordd Penamser a Llwybr Alltwen 2 waith y flwyddyn yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Carol Hayes yn eilio.

353.4.22 STUART NASHIR-HALLARD, Ebost ymddiswyddiad
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ysgrifennu llythyr o ddiolch iddo am ei wasanaeth.

354.4.22 UN LLAIS CYMRU, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

355.4.22 UN LLAIS CYMRU, Dogfen Ymgynghori (29 tudalen copi electronig yn unig)
UN LLAIS CYMRU, Rheoliadau (26 tudalen copi electronig yn unig)
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth

356.4.22 ADRAN AMGYLCHEDD, Partïon stryd Jiwibili
Cytunwyd bod Cyngor Gwynedd yn hyrwyddo dathliadau'r Jiwibili wrth ysgrifennu a gyrru gohebiaeth amdanynt at gynghorau tref a chymuned.
Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl i fynegi siom y Cyngor Tref o dderbyn y fath lythyr ac i bwysleisio fod y Cyngor Tref yn anghytuno gyda safiad Cyngor Gwynedd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

357.4.22 MAINC GLENDA, LLUN

Wedi trafod y mater eisoes yn 335.4.22

358.4.22 CARWYN HUMPHREYS – MANTELL GWYNEDD, Digwyddiad Dathlu a Diolch 6.6.22

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a'r Cynghorwyr i ymateb yn unigol.

359.4.22 Materion Ariannol :

Derbyniadau :

CYNGOR GWYNEDD	Ad-daliad torri gwair 2021-2022	£ 1064.50
HSBC	Llog Banc Mawrth 2022	£ 00.89

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Mawrth 2022	£ 47.35
2	Marian Roberts	Costau Teithio Mawrth 2022	£ 6.86
3	Marian Roberts	**Cyflog Clerc Mawrth 2022 yn cynnwys ôl-daliad o £168.48 ers 1.4 21	£ 774.18
4	Marian Roberts	Inc du i'r printer	£ 15.25
5	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth incwm cyflog Clerc Mawrth 2022	£ 193.54
6	Marian Roberts	Ad-daliad 48 stamp ail ddsbarth	£ 31.68
7	Marian Roberts	Ad-daliad Mini Speakers	£ 12.99
8	Marian Roberts	Ad-daliad 'pouches' lamineiddio	£ 9.95
9	Y Ganolfan	Cyfarfodydd Mawrth 1 ac 8 2022	£ 80.00
10	Cyngor Gwynedd	Difa Pla Cae Pawb	£ 300.00
11	Calon Heart	2 ddiffibriliwr	£ 2,458.00
12	SLCC	Tâl Aelodaeth 2022-23	£ 144.00
13	UN LLAIS CYMRU	Cwrs Cod Ymddygiad Modiwl 9 M.R. 10.3.22	£ 30.00
14	UN LLAIS CYMRU	Cwrs Local Gvt Finance Modiwl 6 M.R. 28.3.22	£ 30.00

**Cyflog Presennol yr awr ar LC2 25 = £15.37
Cyflog o 1.4.21 yr awr ar LC2 = £15.64

Codiad cyflog o £0.27 yr awr.
12 mis o gyflog = 52 wythnos x 12 awr x £0.27

52 x 12 = 624 awr dros flwyddyn
624 x £0.27 = £168.48

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

360.4.22 Ceisiadau Cynllunio

(a) Rhif Cais : C22/0246/44/DT (wedi ebostio 22.3.22)

Lleoliad : Flat 10 & 7 , The Oakeleys Cei Oakley, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AJ

Bwriad : Cyfnewid ffenestri pren a drysau patio presennol fflat 10 a ffenestri fflat 7 gyda

fffenestri plastig i gydweddu lliw a steil y presennol.

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(b) Rhif Cais C22/0273/44/RA (wedi ebostio 28.3.22)

Lleoliad : Ty Moelwyn, Porthmadog, LL49 9AB

Bwriad : Rhyddhau amod 10 (archeoleg) ar ganiatad cynllunio C18/0520/44/LL

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

(c) Rhif Cais / Application No.: C22/0276/44/DT (wedi ebostio 28.3.22)

Lleoliad: Eisteddfa, 4 Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YA

Bwriad : Dymchwel llofa haul cefn presennol a chodi estyniad unllawr cefn yn ei le

Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 20.50

Marian Roberts

(Clerc)